# CA3 - GWEITHGAREDDAU

## ABCh – Gwrando a Deall – Sut mae pobl eraill yn ein gweld ni

Gwyliwch y cyfweliad â **Vernon Davies** a oedd yn yr ysgol yr un pryd â Dylan Thomas.

https://www.youtube.com/watch?v=rPmFmQDWRUA

Atebwch y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Vernon Davies yn disgrifio Dylan Thomas?

   ………………………………………………………………………………………………………………………………

2. Mewn beth roedd gan Dylan ddiddordeb?

   ………………………………………………………………………………………………………………………………

3. Sut roedd Vernon a Dylan yn wahanol?

   ………………………………………………………………………………………………………………………………

4. Beth roedd Vernon Davies yn meddwl y byddai Dylan yn ei wneud yn y dyfodol? Pam?

   ………………………………………………………………………………………………………………………………

   ………………………………………………………………………………………………………………………………

Hyd yn oed pan oedd Dylan Thomas yn yr ysgol, roedd Vernon Davies yn gallu rhagweld beth fyddai'n mynd ymlaen i'w wneud.

**Mewn parau, paratowch am gyfweliad yn y gadair goch am eich ffrindiau yn yr ysgol:**

1. Dewiswch dri/dair o'ch ffrindiau. Sut byddech chi'n eu disgrifio nhw yn yr ysgol?

2. Yn eich barn chi, beth maen nhw'n mynd i'w wneud ar ôl gadael yr ysgol? Pwy sydd fwyaf tebygol o fod yn ... Brif Weinidog, yn actor/yn fardd/yn ganwr enwog, yn feddyg, yn fabolgampwr neu fabolgampwraig ...?

3. Gwnewch nodiadau, yna gall pob pâr ddod i flaen y dosbarth i rannu'r wybodaeth hon.

# Cysylltiadau â’r Fframwaith Llythrennedd:

## Llafaredd

**Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**
**Siarad**

**Blwyddyn 7**

- cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio’r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr
- defnyddio ystod o dreigladau’n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

**Blwyddyn 8**

- cyflwyno pynciau a syniadau’n gydlynus, gan ddefnyddio technegau’n effeithiol
- defnyddio ystod o dreigladau’n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

**Blwyddyn 9**

- cyflwyno syniadau a materion yn llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio amryw o dechnegau
- defnyddio ystod o dreigladau’n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun